Swyddfa Materion Anabledd

Llywodraeth EM

Cydraddoldeb Anabledd:

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad

Eric Emerson, Susannah Baines a Chris Hatton, Athrofa Ymchwil Iechyd, Prifysgol Caerhirfryn

Cyflwyniad gan Swyddfa Materion Anabledd



Cynnwys

1: Cyflwyniad 1

Pam cynhaliwyd ymgynghoriad gan yr ODI 1

Y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad gennym 2

Nifer ac amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd 4

Pam y gofynnwyd i Brifysgol Caerhirfryn lunio'r crynodeb 5

Beth sy'n digwydd nesaf? 5

2: Sut y gwnaethom grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad 7

Y themâu allweddol 8

Amrywiaeth a'r model cymdeithasol anabledd 10

Amrywiaeth 10

Model cymdeithasol anabledd 10

Addysg 11

Rhwystrau a chefnogaeth 12

Maint y cynhwysiant cymdeithasol 12

Cyflogaeth 13

Rhwystrau a chefnogaeth 13

Maint y cynhwysiant cymdeithasol 15

Lles economaidd 16

Rhwystrau a chefnogaeth 16

Maint y cynhwysiant cymdeithasol 17

Tai 17
Rhwystrau a chefnogaeth 18
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 18
Rhwydweithiau cymdeithasol 19
Rhwystrau a chefnogaeth 19
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 19
Iechyd 20
Rhwystrau a chefnogaeth 20
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 20
Cludiant 21
Rhwystrau a chefnogaeth 21
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 21
Mynediad 22
Rhwystrau a chefnogaeth 22
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 23
Cyfranogiad dinesig a gwleidyddol 23
Rhwystrau a chefnogaeth 23
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 24
Agweddau cymdeithasol a phortread y cyfryngau 24
Rhwystrau a chefnogaeth 24
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 25
Trosedd 26
Rhwystrau a chefnogaeth 26
Maint y cynhwysiant cymdeithasol 26
3: Casgliadau 27



1: Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y cyflwyniad i'r adroddiad cryno hwn gan Swyddfa Materion Anabledd (ODI). Ysgrifennwyd gweddill yr adroddiad gan dîm o ymchwilwyr annibynnol yn Athrofa Ymchwil Iechyd Prifysgol Caerhirfryn.

Pam cynhaliwyd ymgynghoriad gan yr ODI

Sefydlwyd yr ODI ym mis Rhagfyr 2005 mewn ymateb i adroddiad gan Uned Strategaeth y Prif Weinidog o dan y teitl 'Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl'[1]. Rôl yr ODI yw sicrhau bod adrannau'r llywodraeth yn cydweithio i ddarparu gweledigaeth cydraddoldeb y llywodraeth ar gyfer pobl anabl erbyn y flwyddyn 2025.

Rhan o'n rôl yw dangos cynnydd y llywodraeth tuag at y nod hwn. Y prif ddull sydd gennym o wneud hyn yw cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer y Prif Weinidog. Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf yn Haf 2006. Eglurwyd y newidiadau gwirioneddol ac ymarferol sy'n cael eu gosod yn eu lle er mwyn galluogi pobl anabl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd maent yn byw eu bywydau ac i wneud yr hyn mae pobl heb anableddau'n eu cymryd yn ganiataol - p'un ai cymryd rhan mewn gwaith, addysg, hyfforddiant, hamdden neu fywyd teuluol, gwneud penderfyniadau ynglŷn â thai a theithio a chael gofal neu gefnogaeth mewn modd o'u dewis hwy. Yn ogystal, mae'n disgrifio rhai o'r arwyddion cynnar sy'n dangos bod y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl anabl.

[1] Improving the Life Chances of Disabled People: Final Report, Prime Ministers Strategy Unit (Ionawr 2005): http://www.cabinetoffice.gov.uk/strategy/work_areas/disability/

Gellir lawrlwytho adroddiad 2006 mewn ystod o fformatau oddi ar www.officefordisability.gov.uk Yn ogystal gellir gwneud cais am gopïau o Swyddfa Materion Anabledd, Lefel 6 Adelphi, 1-11 John Adam St. Llundain WC2N 6HT neu drwy anfon neges e-bost at office-for-disability-issues@dwp.gsi.gov.uk Mae ein gwefan a'r adroddiad hefyd yn darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith mae'r ODI yn ei wneud ac am ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ein nod yw cyhoeddi ein hail adroddiad ym mis Rhagfyr 2007. Bydd adroddiad eleni'n cynnwys y gyfres gyntaf o fesurau y byddwn yn eu defnyddio i ddangos a yw'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yn gwella bywydau pobl anabl.

Rydym yn datblygu'r mesuriadau hyn yn dilyn dadansoddiad o'r hyn a ddywedwyd wrthym yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, "Cydraddoldeb i bobl anabl: sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?" a gynhaliwyd gennym yn gynharach eleni. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn am ein bod yn teimlo y dylem benderfynu ar y math o bethau y dylem eu mesur ar ôl gwrando ar beth oedd pobl anabl yn ei ddweud wrthym ynglŷn â'r hyn oedd yn bwysig yn eu bywydau a'r hyn roeddent yn credu y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio arno.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r hyn a ddywedwyd wrthym wrth i bobl ymateb i'r ymgynghoriad. Mae amrywiaeth yr ymatebion, o safbwynt y ffordd a wnaeth pobl ymateb a'r materion a godwyd ganddynt fel ei gilydd, yn golygu nad oes modd cynnwys popeth a ddywedwyd wrthym yn y crynodeb hwn. Fodd bynnag, darllenwyd ac ystyriwyd pob ymateb a dderbyniwyd.

Y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad gennym

Roeddem am wneud yn siŵr ein bod yn cael barn ystod mor eang â phosibl o bobl anabl (gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion o bob oed). Yn ogystal, roeddem am glywed oddi wrth rieni a gofalwyr, ynghyd â sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl anabl.

Roeddem hefyd am sicrhau ein bod yn cael barn pobl o bob agwedd ar fywyd. Roedd hyn yn cynnwys pobl â gwahanol fathau a graddfeydd o anabledd neu



gyflwr iechyd tymor hir a phobl ag amrywiaeth o nodweddion eraill megis ethnigrwydd, credo, rhywioldeb, oed, rhyw a chrefydd. Roeddem hefyd am sicrhau ein bod yn clywed oddi wrth bobl hyd yn oed os nad oeddent yn ystyried eu hunain yn anabl.

Er mwyn cyflawni hyn, gwnaethom yn siŵr bod pobl yn gallu dweud wrthym am yr hyn roeddent yn ei feddwl drwy nifer o ffyrdd. Yn ogystal ag annog pobl i ymateb yn ysgrifenedig i'r papur ymgynghorol, fe ymrwymwyd pobl drwy'r ffyrdd canlynol:

- cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghorol mawr (yn Llundain, Manceinion a Chaeredin).
- rhoddwyd cymorth i sefydliadau a grwpiau lleol o bobl anabl i gynnal eu cyfarfodydd eu hunain - roedd lefel ein hymrwymiad ni'n cael ei benderfynu gan y bobl oedd yn trefnu'r cyfarfod (mynychwyd rhai cyfarfodydd a rhoddwyd anerchiadau, rhoddwyd cyllid ar gyfer cyfarfodydd eraill, a darparwyd gwybodaeth a chyngor ar gyfer eraill).
- trefnwyd neu rhoddwyd cymorth mewn trafodaethau mewn digwyddiadau eraill a gynhaliwyd gan Adrannau'r Llywodraeth a sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl anabl.
- anogwyd sefydliadau a grwpiau o bobl anabl i hysbysu cymaint o bobl â phosibl am yr ymgynghoriad, a darparwyd 'pecyn offer' i'w cynorthwyo i wneud hyn.
- hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn eang drwy wefannau'r llywodraeth a gwefannau a chylchlythyron ystod eang o sefydliadau.s.

Cynhyrchwyd y papur ymgynghorol mewn amrywiaeth o fformatau. Roedd ar gael fel copi caled 14pt Cymraeg, llythrennau bras, Braille, Easy Read Cymraeg, sain, 14pt Saesneg ac Easy Read Saesneg ac amrywiaeth o fformatau electronig oddi ar ein gwefan (www.officefordisability.gov.uk/consultations). Cynhyrchwyd fersiynau o'r papur mewn amrywiaeth o fformatau eraill yn unol a cheisiadau, yn bennaf copïau lle roedd maint y print yn fwy.

Roedd y cwestiynau a osodwyd yn y papur yn holi:

- beth mae cydraddoldeb yn ei olygu i bobl anabl
- am enghreifftiau o gydraddoldeb roedd pobl anabl yn gwybod amdanynt neu wedi cael profiad ohonynt
- a ddylem ddatblygu mesur unigol ar gyfer cydraddoldeb neu a ddylem fesur cynnydd ar ystod o wahanol agweddau ar fywydau pobl anabl
- pa agweddau o fywyd pobl anabl y dylid canolbwyntio arnynt er mwyn gweld a oedd gwelliannau'n cael eu gwneud yn ystod y blynyddoedd cynnar, wrth ddod yn oedolyn, cyflogaeth a byw'n annibynnol.

Yn ogystal gofynnwyd i bobl ddweud wrthym am unrhyw beth arall roeddent yn credu y dylem ei gymryd i ystyriaeth.

Yn ogystal â darganfod barn pobl am y cwestiynau ymgynghorol, dysgwyd llawer o'r broses o gynnal yr ymgynghoriad ei hun. Byddwn yn gwneud yn siŵr y byddwn yn defnyddio'r profiad hwn wrth drefnu a hyrwyddo cyfarfodydd yn y dyfodol neu wrth eu trefnu drwy sefydliadau neu grwpiau eraill.

Nifer ac amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd

Gwnaethpwyd yn glir ar bob cam o'r ymgynghoriad ein bod am glywed llais ystod mor eang â phosibl o bobl anabl. Wrth i bobl ymateb, gofynnwyd iddynt ddweud wrthym a oeddent yn ymateb fel unigolyn neu a oeddent yn cynrychioli barn sefydliad neu grŵp o bobl.

Yn gyffredinol, cafwyd dros 400 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Roedd llawer o'r rhain gan bobl anabl unigol. Roedd rhai ymatebion oddi wrth sefydliadau mawr a oedd yn cynrychioli pobl anabl, ac oddi wrth gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau ar gyfer pobl anabl. Roedd llawer o'r ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl wedi ceisio barn pobl fel rhan o'r broses o ymateb.



Fel y dengys yr adroddiad hwn, roedd yr ymatebion yn amrywio o ran cynnwys a fformat fel ei gilydd. Ni ofynnwyd i bobl ddweud wrthym am nodweddion eu hanabledd (gan gynnwys y math o anabledd neu gyflwr iechyd), felly ni allwn ddarparu manylion ynglŷn ag ystod y bobl a ymatebodd.

Pam y gofynnwyd i Athrofa Ymchwil Iechyd Prifysgol Caerhirfryn Iunio'r crynodeb

Roeddem am sicrhau bod crynodeb yr ymatebion a gyhoeddwyd gennym wedi ei llunio gan dîm annibynnol i'r ODI. Teimlwyd bod y tîm o fewn yr ODI a oedd wedi cynnal y broses ymgynghorol o bosibl yn rhy agos at yr hyn a ddywedwyd gan rai i'w galluogi i gynhyrchu crynodeb a fyddai'n cynrychioli ystod lawn o safbwyntiau. Roeddem hefyd am sicrhau bod gan y tîm a oedd yn edrych ar yr ymatebion ac yn eu crynhoi ddealltwriaeth dda o fywydau pobl anabl.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Fel y dywedwyd eisoes, byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ym mis Rhagfyr 2007 a bydd hwn yn cynnwys y gyfres gyntaf o fesuriadau y byddwn yn eu defnyddio i weld a oes cynnydd ai peidio.

Bydd y mesuriadau hyn yn seiliedig ar wybodaeth sydd eisoes ar gael neu y gellir ei haddasu'n rhwydd o ffynonellau cyfredol. Fodd bynnag, bydd angen mwy o waith ar rai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyn y gellir eu cynnwys fel mesuriadau cynnydd. Mae dau reswm dros hyn: (i) nid oes ffynhonnell

gwybodaeth y gellir ei defnyddio ar hyn o bryd, a (ii) mae angen mwy o waith ar y cwestiynau yn yr arolwg er mwyn eu diwygio i greu ffordd y gellir monitro cynnydd.

Gwyddom y bydd y wybodaeth sydd ar gael ar anabledd, a'r meysydd pwysicaf ar ran pobl anabl, o bosibl yn newid gydag amser. Er mwyn adlewyrchu hyn, bydd yr ODI yn parhau i gynnwys pobl anabl, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill cyn belled â phosibl yn ein gwaith er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn newid ac yn addasu mesuriadau cydraddoldeb dros amser er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu'r meysydd sy'n cael eu hystyried yn bwysig gan bobl anabl ac i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael ar y pryd.

2: Sut y gwnaethom grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Ein tasg gyntaf oedd penderfynu sut i grynhoi ymatebion dros 400 o bobl a sefydliadau i'r 14 cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Un opsiwn fyddai ceisio crynhoi'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn. Ar ôl darllen enghreifftiau o'r ymatebion yn ofalus penderfynwyd nad hwn fyddai'r opsiwn gorau. Ein rhesymau dros benderfynu hyn oedd:

- yr un materion yn dal i ymddangos dro ar ôl tro mewn ymateb i wahanol gwestiynau. Er enghraifft, roedd llawer o bobl yn ymateb i gwestiwn penodol drwy ddweud rhywbeth tebyg i 'gweler ateb y cwestiynau blaenorol'. Felly, byddai crynhoi'r ymatebion fesul cwestiwn wedi golygu llawer iawn o ddyblygu
- nid oedd pawb a ymatebodd wedi defnyddio'r fformat a awgrymwyd, sef ateb y 14 cwestiwn

Yn lle hyn meddyliom y byddai'n fwy defnyddiol i grynhoi'r prif faterion a'r themâu a oedd yn ymddangos yn bwysig i bobl. Mewn geiriau eraill, ceisiwyd tynnu allan y negeseuon a'r pryderon allweddol a dorrodd ar draws cwestiynau penodol (ac ar draws pobl a sefydliadau a ymatebodd).

Er mwyn gwneud hyn darllenwyd yr ymatebion i bob cwestiwn yn ofalus. Tra roeddem yn gwneud hyn tynnwyd allan restr o benawdau neu gategorïau i'w defnyddio wrth ddosbarthu pryderon cyffredinol pobl a'u hargymhellion penodol ar gyfer mesuriadau. Wrth i ni weithio'n ffordd drwy'r deunydd, datblygodd ein rhestr gyda chategorïau newydd yn cael eu hychwanegu ac eraill yn cael eu hadolygu mewn ymdrech i sicrhau ein bod yn dal negeseuon allweddol pobl. Drwyddi draw ceisiwyd sicrhau:

- ein bod yn canolbwyntio ar bwrpas allweddol yr ymgynghoriad (beth ddylai gael ei fesur fel ein bod yn gwybod a yw pethau'n gwella)
- ein bod yn adlewyrchu pryderon pawb a oedd wedi ymateb.

Mae crynodeb o'r themâu allweddol a'r awgrymiadau a wnaed gan bobl yn dilyn.

Y themâu allweddol

Defnyddiwyd deuddeg thema allweddol i grynhoi ymatebion pobl i'r ymgynghoriad. Y rhain oedd:

- mynediad
- cyfranogiad dinesig a gwleidyddol
- trosedd
- amrywiaeth a'r model cymdeithasol o anabledd
- lles economaidd
- addysg
- cyflogaeth
- iechyd
- tai
- agweddau cymdeithasol a phortread y cyfryngau
- rhwydweithiau cymdeithasol
- cludiant

Mae'n amlwg bod rhai o'r themâu'n gorgyffwrdd (e.e. gellid ystyried cludiant fel elfen o fynediad). Mae rhai themâu yn gysylltiedig mewn ffyrdd eraill (e.e. mae addysg yn helpu ffurfio cyfleoedd gwaith a lles economaidd pobl). Gwnaeth llawer o bobl a sefydliadau bwyntiau pwysig ynglŷn ag i ba raddau roedd llawer o'r materion a godwyd yn plethu i mewn i'w gilydd.

Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg yn cyfateb i raddau eang â'r dimensiynau a gododd o'r Arolwg Cydraddoldeb. Awgrymwyd defnyddio Cerdyn Sgôr Cydraddoldeb yn yr arolwg hwn, a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog ac a

gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2007, ar gyfer asesu cydraddoldeb yn gyffredinol, nid o safbwynt pobl anabl yn unig. Y deg dimensiwn yn yr Arolwg Cydraddoldeb oedd:

- hirhoedledd, gan gynnwys osgoi marwolaeth cyn amserol
- diogelwch corfforol, gan gynnwys rhyddid rhag trais a cham-drin corfforol a rhywiol
- iechyd, gan gynnwys lles a mynediad at ofal iechyd o ansawdd uchel
- addysg, gan gynnwys bod yn greadigol, dysgu sgiliau ac ennill cymwysterau ynghyd â chael mynediad at hyfforddiant a dysgu gydol oes
- safonau byw, gan gynnwys gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel; ac yn cwmpasu maeth, dillad, tai, cynhesrwydd, gwasanaethau, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant
- gweithgareddau cynhyrchiol a gwerthfawr, fel mynediad at waith, profiad cadarnhaol yn y gweithle, cydbwysedd gwaith/bywyd, a'r gallu i ofalu am eraill
- bywyd unigol, teuluol a chymdeithasol, gan gynnwys hunanddatblygiad, cael annibyniaeth a chydraddoldeb mewn perthnasau a phriodas
- cyfranogiad, dylanwad a llais, gan gynnwys cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau a bywyd democratig
- hunaniaeth, mynegiant a hunan-barch, gan gynnwys rhyddid credo a chrefydd
- diogelwch cyfreithiol, gan gynnwys cydraddoldeb a dim gwahaniaethu o safbwynt y gyfraith a thriniaeth gyfartal o fewn y system cyfiawnder troseddol[2]

[2] Fairness and Freedom: The Final Report of the Equalities Review, 2007 http://www.theequalitiesreview.org.uk/upload/assets/www.theequalitiesreview.org.uk/equality_review.pdf

Amrywiaeth a'r model cymdeithasol anabledd

Mae dwy elfen wahanol i'r thema gyntaf; sef pwysigrwydd mynd i'r afael â materion amrywiaeth a goblygiadau mabwysiadu model cymdeithasol anabledd. Yr hyn a ddaw â'r ddau fater at ei gilydd yw bod gan y ddau ohonynt oblygiadau ynglŷn â'r modd rydym yn meddwl am lwyddiant ac yn ei fesur ymhob un o'r themâu canlynol.

Amrywiaeth

Gosododd llawer o bobl bwyslais mawr ar gydnabod materion amrywiaeth ymhlith grŵp o bobl anabl. I rai pobl roedd amrywiaeth yn bennaf yn ymwneud â natur amrywiol eang namau neu gyflyrau iechyd pobl a oedd yn gysylltiedig â'u hanabledd. I eraill, roedd amrywiaeth yn bennaf yn fater cysylltiedig â nodweddion megis ethnigrwydd, oed, rhyw, a thueddfryd rhywiol sy'n ffordd i ddiffinio ein hunaniaeth.

Fodd bynnag, roedd yn glir bod llawer, os nad y mwyafrif, o bobl yn nodi y dylai unrhyw ddull o fesur cynnydd ganiatái dyfarniadau ynglŷn â rhannu'r cynnydd yn gyfartal ymhlith y grwpiau amrywiol a oedd yn creu'r grŵp ehangach o bobl anabl. Roedd llawer o bobl yn pryderu bod rhai grwpiau o bobl anabl yn llawer mwy tebygol o fod ar eu hennill o newidiadau nag eraill (e.e. pobl ag anabledd corfforol yn hytrach na nam deallusol neu emosiynol, pobl o gymunedau mwyafrifol yn hytrach na chymunedau ethnig lleiafrifol, dynion yn hytrach na merched, pobl o oed gweithio yn hytrach na phobl h n). Mae'r goblygiadau ar gyfer mesur cynnydd yn glir; mae angen casglu gwybodaeth ar gyfer pob un o'r themâu canlynol mewn ffordd y bydd modd monitro anghydraddoldebau posibl mewn cynnydd.

Model cymdeithasol anabledd

Yn ogystal pwysleisiodd llawer o bobl a ymatebodd bwysigrwydd seilio unrhyw fesur cynnydd ar fodel cymdeithasol anabledd. Mewn geiriau eraill, dylai'r mesurau ganolbwyntio ar gynnydd mewn dileu neu dynnu ar led strwythurau polisïau ac ymarferion anabl ffurfiol ac anffurfiol, yn hytrach na chynnydd mewn lleihau namau pobl. Hyn ddylai fod yn brif ffocws unrhyw fesur yn nhyb rhai. Roedd eraill yn pryderu ynglŷn â mesur effaith unrhyw gynnydd tebyg ar brofiadau bywyd pobl anabl yn ogystal (e.e. dylai gostwng rhwystrau i gyflogaeth arwain at fwy o bobl yn cael swyddi sy'n talu'n dda). Unwaith eto

mae gan y gefnogaeth eang o fodel cymdeithasol anabledd oblygiadau o ran mesur cynnydd; dylid diffinio cynnydd yn nhermau symud at gymdeithas sy'n anablu llai (lle bydd profiadau bywyd pobl anabl yr un fath â phrofiadau pawb arall).

Yn yr adrannau canlynol rydym wedi ceisio crynhoi'r mesuriadau sy'n mynd i'r afael yn bennaf â:

- newidiadau mewn rhwystrau i gynhwysiad cymdeithasol a chefnogaeth ohonno neu
- maint gwirioneddol cynhwysiad/gwaharddiad cymdeithasol a wynebir gan bobl anabl.

Addysg

Pwysleisiodd y mwyafrif o bobl bwysigrwydd gwneud cynnydd tuag at gydraddoldeb ar gyfer pobl anabl o ran profiadau addysgiadol ac yn enwedig cyraeddiadau addysgiadol. Roedd y gofid hwn yn ymddangos fel petai'n adlewyrchu dau fater. Yn gyntaf, cydnabyddiaeth bod y system addysg yn aml yn methu plant a phobl ifanc anabl. Yn ail, cred ym mhwysigrwydd hanfodol cyrhaeddiad addysgol wrth benderfynu (yn rhannol) mynediad pobl at swyddi a'u lles economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol. Roedd pryder eang y dylai plant anabl gael yr un cyfleoedd a phlant eraill, mewn addysg cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd. Roedd pryder yn ogystal y dylai oedolion anabl gael yr un cyfleoedd ag oedolion eraill o ran mynediad at addysg bellach/uwch o safon uchel. Fodd bynnag, roedd barn gymysg ynglŷn â'r mater o addysg gynhwysol yn erbyn addysg ar wahân. Ymddengys bod hwn yn adlewyrchu'r farn ynglŷn â manteision tebygol ymarfer cyfredol, yn hytrach na chred sylfaenol yng ngwerth cynhenid addysg ar wahân. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Nifer y cyfleusterau gofal plant, chwarae a darpariaeth cyn/ôl ysgol sydd o fewn cyrraedd plant anabl ac yn eu derbyn (yn enwedig y rheiny ag anghenion cefnogaeth uchel).
- Nifer yr ysgolion a'r colegau sy'n gweithredu eu Datganiad Cydraddoldeb Anabl.
- Hygyrchedd cynefinoedd ysgol o ran: i) gwybodaeth; ii) yr amgylchedd ffisegol; iii) y cwricwlwm; a (iv) gweithgareddau hamdden.
- Argaeledd a mynediad at gyrsiau sgiliau bywyd sy'n mynd i'r afael â materion fel gwybodaeth ac arweiniad ar berthynas, rheoli arian, opsiynau addysg a gwaith, sgiliau cymdeithasol a gofal iechyd.
- Costau addysgol plant anabl ac effaith hyn ar lefel eu cynhwysiad.
- Monitro safonau ansawdd ar gyfer cynllunio a datbygu cyrsiau hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion a dyheadau dysgwyr anabl (cyn ac ôl 16 oed fel ei gilydd).
- Canran y bobl ifanc (â datganiad anghenion arbennig) sy'n derbyn Cynllun Trosiannol yn dilyn eu harolwg blynyddol ym Mlwyddyn 9.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Nifer y plant anabl sy'n defnyddio cyfleusterau gofal plant, cyfleusterau chwarae a darpariaeth cyn/ôl ysgol.
- A yw plant anabl yn mynd i'r ysgol, coleg neu brifysgol mae hwy a'u rhieni'n credu yw'r un mwyaf addas ar eu cyfer.
- Canran y bobl ifanc anabl sy'n dechrau ac yn gorffen cyrsiau Addysg Bellach ac Uwch, yn ymgymryd â phrofiad gwaith a chymryd rhan mewn Cynlluniau O Fudd-dal i Waith.
- Bodlonrwydd pobl ifanc anabl â'u profiadau addysgol.
- Cyraeddiadau academaidd a galwedigaethol pobl ifanc anabl.
- Canran y plant anabl sy'n byw gartref neu'n byw i ffwrdd mewn gofal neu mewn ysgolion preswyl arbenigol (a'r nifer o bobl ifanc anabl sy'n dychwelyd i'w teuluoedd neu i'w cartrefi eu hunain ar ôl mynychu ysgol breswyl arbennig).
- Nifer y plant anabl sy'n chwarae triwant/wedi eu heithrio o'r ysgol ac sy'n cael eu bwlio yn yr ysgol.

Cyflogaeth

Cafwyd y nifer fwyaf o sylwadau ac awgrymiadau o ran materion sy'n ymwneud â chyflogaeth – ac nid yn unig o safbwynt y nifer o bobl anabl mewn swyddi ond y math o waith, graddfeydd cyflog, cynnydd a dyrchafiad yn y gwaith, gweithio llawn amser a rhan-amser, y nifer o bobl sy'n datblygu nam tra'n gweithio ac sy'n gallu aros mewn cyflogaeth sector cyflogaeth, priodoldeb gwaith i sgiliau, a'r nifer o bobl anabl sy'n gadael gwaith ar oed derbyn pensiwn gan dderbyn pensiwn gwaith. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Nifer y bobl anabl nad ydynt yn cynnig am swyddi am fod teithio yn rhwystr, neu oherwydd bod symud tŷ yn ddrutach i berson anabl o'i gymharu â'i cywerth nad yw'n anabl.
- Nifer y bobl anabl o oed gwaith sydd â chynorthwyydd personol, a phrofiad y bobl hyn wrth geisio cyflogaeth.
- Nifer y bobl anabl sy'n cael cyfweliad, eu recriwtio a'u gwrthod.
- Nifer y cyflogwyr sydd wedi ymrestru ar gynllun 'Ticiau'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl sy'n gwarantu cyfweliad i bob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf lleiaf a'u hystyried ar sail eu galluoedd.
- Y graddau mae'r recriwtio yn rhydd o wahaniaethu, gan sicrhau bod pob proses recriwtio yn bodloni'r safonau lleiaf (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o safbwynt cenedl a rhyw) ac yn amodol ar gyfyngiadau y gellir eu cyfiawnhau gan natur y gwaith.
- Y graddau mae hysbysebion swyddi'n cael eu lleoli lle mae pobl anabl yn debygol o'u gweld, mewn iaith sy'n debygol o ddenu ymgeiswyr anabl, a chyda manylion yn cael eu darparu mewn fformatau gwahanol.

- Nifer y bobl sy'n aros yn y gwaith ar ôl datblygu anabledd.
- Ymwybyddiaeth/canfyddiad cyflogwyr o'r ystod o nodweddion pobl â namau gwahanol (fel cyflyrau iechyd y meddwl).
- Nifer y cyflogwyr sy'n dweud y byddent yn barod i gyflogi pobl anabl.
- Agweddau a chanfyddiadau yn y gweithle, gan gynnwys agwedd cyflogwyr tuag at bobl anabl.
- Canran y cyflogwyr sydd â pholisiau a gweithdrefnau perthynol i fodel cymdeithasol anabledd.
- Nifer y rheolwyr llinell sy'n derbyn hyfforddiant o safbwynt anabledd a'r nifer o gyflogwyr sy'n gweithredu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer gweithwyr anabl.
- Lefel cydymffurfiad ymhlith cyflogwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (e.e. cofrestr troseddwyr er mwyn nodi pwy sy'n anwybyddu'r Ddeddf yn rheolaidd).
- Monitro polisiau ac ymarferion cyflogwyr o ran gweithwyr anabl, eu dealltwriaeth o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a sut maent yn ei weithredu a'u hymwybyddiaeth o gynlluniau a gynlluniwyd i gynorthwyo gweithwyr anabl.
- Nifer y bobl anabl sydd wedi derbyn cymorth gan Ganolfannau Gwaith a Chynlluniau Mynediad i Waith.
- Nifer y cyflogwyr sy'n defnyddio Cynlluniau Mynediad i Waith.
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn rhaglenni Cam at Waith a Llwybrau at Waith a'r nifer sy'n symud at waith cynaliadwy ar ddiwedd y rhaglen.
- Bodlonrwydd â Chynlluniau Mynediad at Waith, a rhaglenni Cam at Waith a Llwybrau at Waith.
- Ymwybyddiaeth o Mynediad at Waith a'r nifer sy'n ymgymryd â nhw o blith busnesau bach a chanolig ac ymhlith pobl anabl.
- Argaeledd ac ansawdd y gefnogaeth a gynigir gan asiantaethau/cynlluniau fel Mynediad i Waith a gwasanaethau eraill Canolfannau Byd Gwaith, darparwyr dysgu a hyfforddiant seiliedig yn y gwaith a sefydliadau cefnogi'r sector gwirfoddol.
- Y graddau mae dysgwyr anabl yn gallu derbyn cefnogaeth sydd wedi ei deilwra yn iawn ar eu cyfer, y modiwlau hyfforddiant a'r cynlluniau angenrheidiol er mwyn iddynt symud ymlaen a gwneud cynnydd.

- Y graddau mae'r system budd-daliadau'n effeithio ar gyflogaeth (e.e. yn rhwystro cyflogaeth â thâl oherwydd y 'trap budd-daliadau')
- Y cyflymdra y gellir newid o fod ar fudd-daliadau i fod mewn gwaith (ac yn ôl eto).
- Canran y bobl anabl sy'n derbyn Lwfans Byw'n Annibynnol a/neu Daliadau Uniongyrchol tra'n gyflogedig;
- Monitro'r graddau mae Lwfans Byw i'r Anabl (yn enwedig yr elfen symudedd) yn cefnogi neu'n rhwystro mynediad i waith.
- Y nifer sy'n cymryd budd-daliadau lles wrth weithio.
- Monitro cyffredinolrwydd patrymau gwaith hyblyg a'r modd y cymhwysir yr angen am amser i ffwrdd, naill ai i fynychu apwyntiadau neu pan yn anhwylus, heb berygl o gael cosb am wneud hynny[3]
- Nifer y sefydliadau sy'n barod i leoli pobl anabl yn y gweithle (e.e. drwy gael oriau gwaith hyblyg, lleoedd gwaith o fewn cyrraedd, defnyddio deunyddiau ready read ac yn y blaen).
- Nifer y gweithwyr sy'n nodi eu bod wedi gofyn am gymhwysiad rhesymol ac wedi ei dderbyn.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Nifer y bobl anabl sydd mewn cyflogaeth;
- Canran y bobl anabl mewn gofal preswyl sydd mewn cyflogaeth.[4]

---

[3] Codwyd hyn hefyd o safbwynt pobl nad ydynt efallai yn bodloni diffiniad cyfreithiol anabledd; ond sydd angen cefnogaeth, dealltwriaeth ac ystyriaeth o ran eu hanghenion os ydynt i aros yn y gweithle.

[4] Codwyd hyn fel mater penodol gan y gall enillion a dynnwyd ar gyfer ffioedd preswyl ymddangos fel petai dim pwrpas dros weithio o safbwynt hollol economaidd.

- Y math a'r lefel o waith mae pobl yn ei wneud, gan gynnwys y math o waith, oriau gwaith, cyflog (e.e. y canran sy'n ennill mwy na'r lleiafswm cyflog), y canran sydd mewn swyddi uwch neu reoli, cynnydd gyrfaol, hyd y gwasanaeth, cadw swydd, sector (cyhoeddus, gwirfoddol, preifat), hunangyflogedig, defnyddio ymarferion gweithio hyblyg, cymwysterau perthnasol i'r math o waith).
- Canran y bobl anabl cyflogedig sy'n gallu cefnogi eu hunain gydol eu cyflogaeth.
- Nifer y bobl anabl sy'n gweithio hyd oed ymddeol sy'n derbyn pensiwn preifat/galwedigaethol.
- Canfyddiadau gweithwyr anabl ynglŷn â'u gweithle, a ydynt yn cael eu trin yn deg a chydag ystyriaeth.
- Nifer y bobl anabl sy'n newid eu swyddi neu'n gadael y gwaith o fewn amser byr a pham maent yn gadael.
- Nifer y bobl anabl sydd wedi bod allan o waith/yn chwilio am waith am flwyddyn, 3 blynedd, 5 mlynedd, 10 mlynedd neu fwy.
- Nifer y bobl anabl sy'n parhau'n ddi-waith am gyfnodau hir ar ôl gadael addysg.
- Monitro nifer y rhai ag anableddau neu broblemau iechyd tymor hir sy'n ceisio Lwfans Chwilio am Waith.

Lles economaidd

Amlygodd nifer o'r ymatebwyr y cyswllt pwysig rhwng tlodi ac anabledd, a chynigiwyd mesuriadau i werthuso tlodi perthynol, costau anabledd ac effaith y ddarpariaeth i helpu pobl allan o dlodi. Gwelwyd lles economaidd fel canlyniad ac achos dros waharddiad cymdeithasol. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Y graddau mae budd-daliadau anabledd (yn enwedig Lwfans Byw i'r Anabl) yn diogelu plant rhag tlodi, ac a ydynt yn cyrraedd teuluoedd sydd mewn perygl o dlodi.

- Ymwybyddiaeth o'r Lwfans Byw i'r Anabl a'r nifer sy'n ei gymryd.
- Nifer y plant anabl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol.
- Costau ychwanegol cludiant ac addasiadau ffisegol sydd eu hangen ar gartrefi pobl.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Canran plant ac oedolion anabl/nad ydynt yn anabl sydd â phrofiad o galedu cymedrol a difrifol neu dlodi incwm parhaol.
- Incwm Gwario Cartrefi ar ôl didynnu costau tai.
- Nifer y bobl anabl sy'n byw mewn tlodi tanwydd.
- Nifer y bobl anabl sy'n hawlio budd-daliadau.
- Incwm ymddeoliad.
- A yw pobl anabl yn gallu ariannu cymhorthion, offer a chefnogaeth i fodloni eu hanghenion ychwanegol er mwyn goresgyn anableddau.
- Hygyrchedd rhieni at waith, y gallu i fforddio gwyliau, y mathau o weithgareddau hamdden a fynychir.

Tai

Amlygwyd pwysigrwydd tai gan nifer o ymatebwyr, er bod yr hyn a olygir wrth dai addas yn amrywio llawer rhwng un unigolyn a'r llall. I rai roedd cynnydd yn golygu cefnogaeth i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, tra bod eraill am gael eu cefnogi mewn amgylchedd grŵp. Mynegwyd pryderon ynglŷn ag argaeledd tai diogel fforddiadwy, y lefel y gellir addasu tai i fodloni anghenion, a'r gefnogaeth a ddarparwyd i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Monitro hygyrchedd tai (e.e. drwy gydymffurfio â Safonau Cartrefi Gydol Oes).
- Nifer y tai hollol hygyrch sy'n cael eu hadeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes neu'n cael eu haddasu ar gyfer eu defnyddio.
- Hyd y cyfnod mae'n ei gymryd i gael addasiadau i gartrefi Cyngor a Chymdeithasau Tai.
- Profiad pobl wrth gael arian o gronfeydd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a phrofiadau o'r prosesau sydd ynghlwm wrth weithredu'r addasiadau i'w cartrefi.
- Nifer y bobl anabl ifanc sy'n cael mynediad at gyrsiau byw'n annibynnol sy'n seiliedig ar hawliau, a'u nod ar ôl cwblhau'r cyrsiau hyn.
- Nifer y teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn y cartref, gan gynnwys gofal cartref a seibiant ar gyfer gofalwyr.
- Presenoldeb trefniadau lleol i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol ac i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau neu ragfarn gallent eu hwynebu o fewn eu cymunedau (e.e. bwlio neu aflonyddwch gan gymdogion).
- Gallu pobl anabl i symud o un awdurdod lleol i'r llall ac effaith hyn ar y gwasanaethau a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Nifer y bobl anabl sy'n byw mewn gwahanol fathau o lety (e.e. eu cartrefi eu hunain, 'wedi ei rhenti' (preifat neu gymdeithasol), cartrefi gofal, tai wedi eu rhannu, campysau preswyl neu sy'n ddigartref).
- Nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt reolaeth a dewis dros le maent yn byw a gyda phwy maent yn byw (e.e. y nifer sy'n byw mewn gofal preswyl neu ysbytai lle maent yn aros am gyfnodau hir a'r nifer a gafodd ddewis am hyn).
- Tystiolaeth ansawdd ar y rheolaeth, y dewis, y gefnogaeth, yr hyblygrwydd a'r annibyniaeth ym mhrofiad pobl anabl.

Rhwydweithiau cymdeithasol

Ystyriwyd rhwydweithiau cymdeithasol a chysylltiadau â chymunedau yn bwysig iawn, er mai prin oedd y mesuriadau penodol a awgrymwyd gan ymatebwyr. Gall y rhain gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol sy'n bosibl i'w cyrraedd drwy'r byd ffisegol a'r byd electronig, drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn anodd mynd allan a chyfathrebu â phobl a bod hyn yn arwain at gael ychydig iawn o ffrindiau ac at fod yn ynysig. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Nifer y bobl anabl sy'n cael eu rhwystro rhag ymuno â chlybiau/sefydliadau.
- Y graddau mae polisïau yn eu lle i gefnogi pobl anabl yn eu dewis o berthnasoedd gan gynnwys y profiad o gymryd risgiau.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Y nifer o ffrindiau sydd gan berson anabl.
- Y nifer o bobl anabl sy'n ffurfio perthnasoedd rhamantus tymor hir fel canran o'r rhai sy'n mynegi eu bod yn dymuno gwneud hynny, o'u cymharu â'r gyfradd yn y boblogaeth yn gyffredinol.
- Nifer y bobl anabl sy'n aelodau o glwb neu sefydliad.
- Pa mor aml mae pobl anabl yn siarad â'u cymdogion, yn cwrdd â ffrindiau neu berthnasau (sy'n byw y tu allan i'r cartref).
- Mynediad at/defnyddio cyfrifiaduron yn y cartref (er mwyn galluogi negeseuon e-bost a chyfathrebu dros y we).

Iechyd

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder am nad oedd rhai gwasanaethau iechyd ar gael yn rheolaidd ar gyfer pobl anabl neu nid oedd pobl anabl yn cael gwybod amdanynt. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn pwysleisio y byddai cynnydd yn nisgwyliad oes pobl anabl a gostyngiad yn y nifer o farwolaethau byddai modd eu hatal yn golygu culhau'r bwlch anghyfartaledd mewn canlyniadau iechyd. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Cydraddoldeb mynediad at ofal iechyd, o ran adeiladau (ysbytai, meddygfeydd meddygon teulu, canolfannau byw'n iach) a gwybodaeth (e.e. argaeledd llyfrynnau hawdd eu darllen, gwahanol fformatau).
- Nifer y bobl anabl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a sgrinio penodol (e.e. merched yn hawlio profion ceg y groth, mamogramau).
- Nifer y bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl sy'n ceisio dulliau/lleoliadau triniaeth arall – gan gynnwys gwasanaethau seiliedig ar therapïau.
- Mynediad pobl anabl at wasanaethau prif ffrwd e.e. cynllunio teulu, ffrwythloni in vitro (IVF) a thriniaeth ffrwythlondeb, sgrinio cancr y fron.
- Nifer y bobl anabl sydd wedi ymrestru â meddyg teulu.
- Canran y meddygon a'r deintyddion (GIG a phreifat) sydd â meddygfeydd cyraeddadwy.
- Canran staff meddygfeydd (gan gynnwys deintyddion a meddygon) sydd wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb anabledd.
- Graddfa'r dewis ac ymgynghoriad sydd gan bobl anabl dros eu triniaethau ac a yw triniaeth yn canolbwyntio ar sefyllfa gyfannol yr unigolyn (gan gynnwys eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol).

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Cynnydd yn nisgwyliad oes pobl anabl.
- Nifer/canran y bobl anabl sy'n marw o salwch y mae'n bosibl ei atal.
- Nifer y bobl anabl sy'n cyflawni hunanladdiad.
- Mesuriadau lles, hapusrwydd, iselder ysbryd a phroblemau iechyd meddwl.

Cludiant

Amlygwyd pwysigrwydd mynediad at gludiant gan nifer o ymatebwyr, gan nodi yn eu plith meysydd awyr, gorsafoedd a phlatfformau trên, gorsafoedd bws ac arosfanau bws, a chyda bysys a threnau eu hunain. Gall anhawster mynediad at gludiant olygu eu bod yn cael anhawster cael gwaith, ymweld â ffrindiau a theulu, cymryd gwyliau, mynd i'r ysbyty neu gadw apwyntiadau gyda'r meddyg teulu, a chymryd rhan yn y gymdeithas. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Monitro gorsafoedd rheilffordd, gorsafoedd bysys, meysydd awyr a chludiant ar gyfer hygyrchedd yn bellach na bod heb risiau (gan gynnwys dangosyddion gweladwy digonol ac ymwybyddiaeth byddardod a sgiliau cyfathrebu staff).
- Canran gweithwyr cludiant cyhoeddus (yn enwedig personél bws a thrên) sydd wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd.
- Fforddiadwyedd cludiant cyhoeddus.
- Argaeledd gwasanaethau cludiant hygyrch ar draws y wlad.
- Hygyrchedd gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau cludiant.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Ansawdd profiad teithio pobl anabl.
- Nifer y bobl anabl sy'n defnyddio gwasanaethau cludiant dros gyfnod o amser.
- Lefelau bodlonrwydd pobl anabl gyda chludiant cyhoeddus.
- Gallu pobl anabl i wneud teithiau disymwth drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus a phobl yn defnyddio cludiant cymunedol yn cael mynediad rhydd tebyg i gludiant fel pobl anabl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus.

- Awdurdodau Lleol a gweithredwyr yn cael y grym/cymhelliant i fynd i'r afael â chydraddoldeb mewn cynllunio llwybrau cludiant cyhoeddus, yn enwedig o ran canolfannau dinasoedd (e.e. terfynfeydd yn cael eu symud i gyrion canolfannau).

Mynediad

Dywedodd llawer o bobl fod mynediad at adeiladau yn fater allweddol a phwysleisiwyd bod gwneud adeiladau yn fannau hygyrch yn golygu llawer mwy na darparu rampiau. Roedd y dangosyddion a awgrymwyd ar gyfer cynnydd yn cynnwys nid yn unig materion ynglŷn â'r amgylchedd adeiladol (ffyrdd, palmentydd, adeiladau) ond, yn ogystal, hygyrchedd deunyddiau a gyhoeddwyd, y cyfryngau darlledu a thudalennau'r we. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Canran y rhaglenni teledu sydd wedi eu is-deitlo/wedi eu harwyddo.
- Argaeledd y rhyngrwyd, yn enwedig lle rheolir y cynnwys gan sefydliadau a chwmnïau'r DU.
- Mynediad at /defnydd o gyfrifiaduron cartref.
- Canran y cyfarfodydd cyhoeddus lle darperir cefnogaeth gyfathrebu fel Adrodd Llafar i Destun (Speech to Text Reporting) yn awtomatig.
- Canran y sinemâu a'r theatrau (a sefydliadau tebyg) sydd ag offer is-deitlo, systemau cylch clywed gweithredol neu offer STAGETEXT, a hefyd pa ganran o lwyfannau neu berfformiadau sydd ar gael ar gyfer pobl fyddar.
- Hygyrchedd a defnydd cyfleusterau chwaraeon a hamdden anstatudol, fel clybiau nos, stadia chwaraeon a'r defnydd o gyfleusterau fel llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau hamdden a gwasanaethau gwirfoddol ar gyfer grwpiau â gwahanol namau, gan gynnwys pobl ag anghenion cymhleth.
- Darpariaeth cyfleusterau toiled (gan gynnwys plinthau newid) sy'n hollol o fewn cyrraedd oedolion a phlant mewn adeiladau cyhoeddus.
- Graddfa clirio i fyny'r awdurdodau lleol a'r Heddlu mewn achosion o rwystrau i symudedd.

- Canran y plant byddar sy'n dysgu drwy gyfrwng eu hiaith gyntaf neu sy'n defnyddio BSL a Saesneg ar y cyd.
- Ymwybyddiaeth ac argaeledd hyfforddiant symudedd ar gyfer pobl anabl (yn ôl grŵp nam).

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Y nifer o bobl anabl sydd (yn llwyddiannus) yn dwyn achosion o dan ddarpariaethau cyflogaeth a nwyddau a gwasanaethau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Cyfranogiad dinesig a gwleidyddol

Byddai cymryd rhan mewn gweithgareddau dinesig a gwleidyddol yn codi gweledegd pobl anabl yn y gymdeithas. Gallai yn ogystal gynyddu ymwybyddiaeth gymdeithasol o faterion anabledd a hyrwyddo materion cydraddoldeb o'r lefel sylfaenol. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Twf yn nifer y Paneli Mynediad a chefnogaeth ariannol barhaus ar gyfer eu gwaith.
- Llwyddiant pobl anabl i drefnu eu hunain yn wleidyddol fel sefydliad sy'n cael ei redeg, ei gynnal a'i reoli'n annibynnol gan bobl anabl.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Nifer y bobl anabl sy'n ymwybodol o'u hawliau.
- Nifer y bobl ifanc a phlant anabl sy'n cymryd rhan weithredol yn eu hysgolion, eu hawdurdodau lleol ac ar lefelau rhanbarthol/cenedlaethol.
- Nifer y bobl anabl sy'n mynnu eu hawliau i heriau cyfreithiol, i bleidleisio neu i sefyll dros apwyntiad gwleidyddol.
- Cynrychiolaeth ar fyrddau cyrff cyhoeddus - ymddiriedolaethau ysbytai, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, cymdeithasau tai, llywodraethwyr ysgolion, cynghorwyr lleol neu AS a 'chyfranogiad dinesig' cyffredinol fel aelodaeth undebol, aelodaeth sefydliadau sector wirfoddol arall sy'n gweithio gyda phobl anabl, aelodaeth o bartïon gwleidyddol.
- Datblygu mynegai sy'n adlewyrchu i ba raddau mae pobl anabl yn gallu cymryd rhan weithredol yn strwythurau diffiniedig eu cymunedau eu hunain.
- Pa mor aml y telir ymweliadau i aelodau o'r teulu, amlder ymweliadau i'r sinema, theatrau, tai bwyta a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cymdeithasol a chwaraeon eraill.

Agweddau cymdeithasol a phortread y cyfryngau

Ysgogodd sylwadau ar agwedd y gymdeithas a'r cyfryngau tuag at bobl anabl nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd agweddau tuag at bobl anabl fel ffactor gyfrannol mewn meysydd eraill a drafodwyd yn flaenorol, fel gwaith a chludiant. Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr petai gan staff canolfannau gwaith neu yrwyr bws agwedd gadarnhaol at bobl anabl byddai hynny yn ei dro yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl anabl o ran gwaith a chludiant. Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Cynnydd yn nifer y gweithwyr sector gyhoeddus sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb anabl.
- Mynd i'r afael â'r diffyg parch a phortread pobl anabl yn y cyfryngau cyfredol, fel mabwysiadu agwedd nawddoglyd a phwysleisio dewrder neu'r elfen dioddefwr.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Presenoldeb ystod o ddelweddau cadarnhaol o bobl anabl yn y cyfryngau (e.e. cyflogaeth neu mewn gwahanol berthnasoedd gan gynnwys lesbiaid, hoyw, deuryw a thrawsryweddol).
- Byddai'r portread o bobl anabl gan y cyfryngau'n un niwtral; byddai agweddau negyddol wedi diflannu a byddai defnyddio geiriau amhriodol fel 'dewr', 'dioddefwr' a 'dioddef rhag' yn ymddangos yn hollol ddyddiedig.
- A oes gan ffoetws anabl gyfle cyfartal. Ar hyn o bryd mae cyfyngiad amser ar wahân ar gyfer ffoetws heb anabledd a ffoetws anabl. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn effeithio ar ganfyddiad cyhoeddus o bobl anabl.
- Y nifer o bobl anabl sy'n dweud bod ganddynt reolaeth dros eu hiechyd atgenhedlu, gan gynnwys yr hawl i gael plant.
- Arolwg o bobl anabl ar agweddau cyhoeddus.
- 'Canlyniadau bywyd' pobl anabl (gan gynnwys grwpiau â nam penodol) o ran cyfrannu at fywyd teuluol, y gymuned, gwaith cyflogedig, hamdden, ac ati (mae ansawdd y profiadau'n bwysig hefyd).
- Lleihau'r bwlch rhwng y ffordd o fyw a dyheadau ar gyfer ffordd o fyw ar ran y boblogaeth gyffredinol a phobl anabl fel y'u nodir gan yr Arolwg Cyffredinol o Gartrefi.
- Cynnwys cwestiynau ynglŷn ag agweddau tuag at bobl anabl a derbyn eu hawliau i gyfleoedd a thriniaeth gyfartal, efallai drwy'r Arolwg Agweddau Prydeinig neu'r Arolwg Cyffredinol o Gartrefi.
- Nifer y bobl anabl sy'n llwyddiannus yn y cyfryngau.

Trosedd

Nodwyd nifer a phrofiadau pobl anabl fel dioddefwyr troseddau, difinyddion a rhai sy'n dwyn achosion sifil o fewn y system cyfiawnder troseddol fel mesuriadau cydraddoldeb hanfodol gan lawer o'r ymatebwyr.

Rhestrir rhai o'r mesuriadau cynnydd a awgrymwyd isod.

Rhwystrau a chefnogaeth

- Awdit cylchrannog barhaus o gyfeiriadau gan awdurdodau cyhoeddus a'u hasiantau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ac o achosion gwahaniaethu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Maint y cynhwysiant cymdeithasol

- Nifer y troseddau casineb at yr anabl sy'n cael eu cofnodi, y nifer o'r rhain sy'n cael eu herlyn a'r nifer sy'n cael eu collfarnu.
- Profiad pobl anabl o droseddau (ynghyd â throseddau casineb), tebyg iawn i Arolwg Troseddu Prydain, er mwyn canfod a yw pobl anabl mewn mwy o berygl neu'n fwy agored i droseddau.
- Mesur y modd mae cymdeithas yn trin pobl anabl drwy brofiadau pobl anabl o droseddau a'r system cyfiawnder, o gofnodi troseddau hyd at gollfarnau.
- Trais yn erbyn merched. Byddai cydraddoldeb i bobl anabl yn golygu y gallai merched ag anableddau fyw bywyd sy'n rhydd rhag trais.

3: Casgliadau

Daeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o ystod eang o unigolion, elusennau, cwmnïau, undebau llafur a sefydliadau eraill, pob un â diddordeb mewn hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl. Roedd pob ymatebyn chwarae rhan bwysig wrth ffurfio canfyddiadau'r adroddiad hwn, ac roedd pob un yn cydnabod ystod eang y gwahanol amgylchiadau ac yn adlewyrchu amrywiaeth profiadau pobl anabl. Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am roi cryn dipyn o egni, amser a meddwl i'r dasg - gobeithiwn y bydd yr un egni, amser a meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Yn gryno, gellir tynnu tri chasgliad allweddol o'r bobl ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Yn gyntaf, pwysleisiodd pobl amrywiaeth anferth y grŵp y gellir ei ystyried fel pobl anabl – mae gan hyn oblygiadau pwysig wrth fesur cydraddoldeb oherwydd:

- bydd amgylchiadau, anghenion a dyheadau pobl yn amrywio'n fawr
- mae'n debygol y bydd amrywiaeth eang yn y cynnydd tuag at gydraddoldeb o fewn y boblogaeth o bobl anabl, ynghyd â rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth.

Yn ail, roedd ymatebwyr yn cymeradwyo model cymdeithasol anabledd, lle gwelir y strwythurau, y polisiau, yr ymarferion a'r agweddau sy'n anablu o fewn y gymdeithas fel achos yr anghydraddoldebau ym mhrofiad pobl anabl yn hytrach nag o ganlyniad i namau'r person ei hun. Yn ogystal, mae gan y farn hon oblygiadau ar gyfer mesur cydraddoldeb:

- dylai un gyfres o fesuriadau cydraddoldeb ddelio â'r strwythurau, polisiau, ymarferion ac agweddau cymdeithasol sydd naill ai'n rhwystro neu'n cefnogi pobl i gael profiad o gydraddoldeb. Ceir cydraddoldeb pan fydd rhwystrau'n diflannu a phan fydd cefnogaeth yn fater o drefn.
- dylai ail gyfres o fesuriadau cydraddoldeb ymwneud â phrofiadau bywyd pobl anabl o'u cymharu â gweddill y boblogaeth. Ceir cydraddoldeb pan fydd pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, fel poblogaethau, yn cael yr un profiadau bywyd.

Yn drydydd, gosodwyd allan gan ymatebwyr yr ymgynghoriad gyfres gynhwysfawr o feysydd lle y bydd yn hanfodol i fesur cydraddoldeb: addysg, cyflogaeth, lles economaidd; tai; rhwydweithiau cymdeithasol; iechyd; cludiant; mynediad; cyfranogiad dinesig a gwleidyddol; agweddau cymdeithasol a phortread y cyfryngau; a throseddau. Mae'r meysydd hyn yn adlewyrchu cyfres o ddyheadau ar gyfer bywyd boddhaol i'w rhannu gyda phawb o boblogaeth y DU a Llywodraeth y DU: mae'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn wedi darparu ffordd o farnu pryd y bydd y bywyd boddhaol hwn ar gael i bawb yn gyfartal.

Swyddfa Materion Anabledd
Llywodraeth EM

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd, yn ogystal ag ar ffurf sain a Braille. Os hoffech gopi ar unrhyw un o'r fformatau hyn, cysylltwch â'r Swyddfa Materion Anabledd:
Cyfeiriad: Office for Disability Issues, 6th Floor, The Adelphi, 1-11 John Adam Street, London, WC2N 6HT
E-bost: office-for-disability-issues@dwp.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7962 8799
Ffôn testun: 020 712 2032

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad hwn hefyd o wefan SMA ar http://www.officefordisability.gov.uk ar ffurf PDF, RTF a sain.

ISBN: 978 1 84763 139 8

Cynhyrchwyd gan Y Swyddfa Materion Anabledd
© Hawlfraint y Goron
Argraffwyd yn y DU, Tachwedd 2007.